

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018.

Yn Bresennol:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet (eitemau 1-8), Angela Maguire-Lewis, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos (yn absennol ar gyfer eitem 5), Arun Midha, Caroline Burt, Claire Morgan, David Jones.

Hefyd yn y Cyfarfod:

Alun Llwyd (AL), Helen Bushell (HB), Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Kate Crabtree (KC), Kerry Price (KP) – eitemau 6 a 7, Joanne Nicholas (JN) – eitemau 6 a 7, Helen Murray (HM) – eitem 10, Alison Rees (AR) - Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Ddiddordeb, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nododd y Cadeirydd nad oedd Alun Llwyd yn rhan o gyfarfod y Bwrdd fel aelod o'r Bwrdd am fod ei dymor wedi dod i ben ar 4 Mawrth 2018.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiannau a chadarnhaodd Rheon Thomas na fyddai'n cymryd rhan yn eitem 5 (Cwricwlwm i Gymru) gan esbonio yn y datganiad bod Cadeirydd CBAC yn bartner busnes iddo. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod o'r farn y byddai'n briodol i RT adael a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth.
- 1.3. Nododd ED ei rôl fel rhan o bwyllgor Archwilio a Risg yr Economi, Gwyddoniaeth ac Adnoddau Naturiol, lle bu'n goruchwyllo'r adolygiad llywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff a noddir ganddi.
- 1.4. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd nas cyhoeddwyd eisoes ar y rhestr sefydlog o ddatganiadau.
- 1.5. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr hoffent ei drafod yn deillio o'r papurau gwybodaeth. Cafodd papur cylch gorchwyl y grŵp ymchwil ei ychwanegu at yr agenda o dan Unrhyw Fater Arall.
- 1.6. Nodwyd pob un o'r papurau gwybodaeth a oedd yn weddill (Strategaeth Gaffael (gyda rhai mân gamgymeriadau teipograffyddol), Rhagolwg y Bwrdd, Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, y wybodaeth ddiweddaraf am y gyfres arholiadau ac adroddiad ar reoli risg).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018 a'r Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau teipograffyddol a newid bach i baragraff 6.3. Nodwyd bod Kate Crabtree yn bresennol yn y cyfarfod. Byddai'r

cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.

- 2.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y ddau gam gweithredu yn y cofnodion, yr oeddent wedi'u cwblhau.

Materion sy'n Codi

- 2.3. Holodd y Bwrdd a ddylid monitro argaeledd arholwyr o ystyried pwysigrwydd eu rôl a'r risg o beidio a chael digon o arholwyr ym mhob pwnc. Cadarnhaodd JR fod argaeledd arholwyr yn cael ei fonitro a'i drafod â CBAC drwy gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd o gyfarfodydd Grŵp Rheoli Cyflawni Cymwysterau a'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n ofynnol gan CBAC yn ystod y gyfres arholiadau. Nododd JR fod CBAC eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith yn ddiweddar i recriwtio mwy o arholwyr. Nododd PB y byddai gwaith yn cael ei wneud i hyrwyddo rôl arholwyr yn ystod hyfforddiant cychwynnol athrawon (gan nodi bod profiad priodol yn un o'r gofynion ar gyfer rôl arholwyr). Nododd JR bod y mater wedi cael ei drafod gyda grŵp cyfeirio'r Penaethiaid hefyd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Y Diweddaraf gan y Cadeirydd

- 3.1. Rhoddodd y Cadeirydd (AE) y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol ar lafar i'r Bwrdd.
- 3.2. Nododd AE ei bod hi a PB wedi mynychu gweithdy ynglŷn ag adolygiad Llywodraeth Cymru o gydberthnasau llywodraethu â chyrrff a noddir. Cafodd papur â rhagor o fanylion am yr adolygiad ei gynnwys ym mhecyn y Bwrdd. Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a'r papur.
- 3.3. Roedd adolygiadau blynyddol yr aelodau bellach wedi'u cwblhau, roedd y Cadeirydd wedi rhoi crynodeb ysgrifenedig i bob aelod o'r Bwrdd i gytuno arno a byddai'r data perthnasol yn ffurfio rhan o'r adolygiad cyffredinol blynyddol a chynllun gweithredu'r Bwrdd. Byddai argymhellion i gefnogi'r gwaith o ailbenodi unigolion i'r Bwrdd hefyd yn cael ei ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Nododd y Cadeirydd fod rhaglen datblygu'r Bwrdd wedi'i gwblhau a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.
- 3.4. Nododd AE fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gydag Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 14 Chwefror. Roedd yn gyfarfod rhagarweiniol defnyddiol. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn nodi nad oedd yn gallu cyfarfod â Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd.

- 3.5. Gwahoddwyd Cymwysterau Cymru i fynychu sesiwn tystiolaeth gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ym mis Mai mewn perthynas â darparu gwrslyfrau ar gyfer y manylebau Safon Uwch a TGAU newydd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd newyddion diweddaraf y Cadeirydd ei nodi gan y Bwrdd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei adroddiad Prif Swyddog Gweithredol a oedd yn cynhroi diweddariadau mewn perthynas â'r canlynol:
- 4.2. *Comisiynu Iechyd a Gofal Cymdeithasol* – Nododd PB fod y prosiect wedi gwneud cynnydd da a byddai'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd yn barod yn ôl y disgwyl. Mae pob parti wedi cytuno ar strategaethau asesu. Roedd y consortiwm yn datblygu cynnwys manwl – ac er bod y cynnydd yn dda, mae'n faes sy'n peri risg o hyd. Mynegodd y Bwrdd bryder y gallai un risg ym maes darparu arwain at ganlyniadau gwael posibl a allai, yn eu tro, arwain at feirniadaeth o Cymwysterau Cymru. Gofynnwyd am sicrwydd byddai pob cam posibl yn cael ei gymryd er mwyn sicrhau cytundeb â Gofal Cymdeithasol Cymru ar y mater hwn. Cynhaliwyd adolygiad o'r cynnydd yn fewnol a chymerir camau pan fo angen er mwyn sicrhau bod y prosiect yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni canlyniadau'r adolygiad sector.
- 4.3. *Adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* – Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig 'Adeiladu'r Dyfodol' ar 8 Chwefror. Cafodd sylw da yn y cyfryngau ar y pryd a chafwyd cryn dipyn o gefnogaeth yn y wasg berthnasol yn dilyn hynny. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar y cynigion ar gyfer diwygio cymwysterau ar yr un pryd â'r adroddiad, a oedd yn nodi'r dull gweithredu a ddewiswyd gennym ar gyfer llwybr Sylfaen – Dilyniant – Prentisiaeth i'r diwydiant. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 13 Ebrill.
- 4.4. *Adroddiad Bagloriaeth Cymru (adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau)* – Nododd PB fod yr adroddiad bron wedi'i gwblhau a disgwylir ei gyhoeddi ym mis Ebrill. Roedd y gwaith o hwyluso sesiynau briffio yn mynd rhagddo yn ogystal ag ymgysylltu gan randdeiliaid â chyrrff perthnasol.
- 4.5. *Y prosiect data* - Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am y casgliadau data ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Nododd PB fod cryn dipyn o waith cynllunio wedi'i wneud ar gyfer casgliad Cymwysterau Cymru ei hun o ddata cymwysterau galwedigaethol a bwriedir i hynny ddod i rym yn ddiweddarach yn 2018.
- 4.6. *Y rhaglen ymchwil* – Nododd PB fod yr ymchwil a gomisiynwyd mewn perthynas â ffioedd a gwasanaethau cymwysterau cyffredinol ychydig ar ei hôl hi. Roedd staff

wrthi'n adolygu'r allbynnau drafft ac maent wedi trefnu i gael trafodaeth ystyriol yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Ebrill, fel y bwriedir cyn cyhoeddi unrhyw ddogfennau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

5. Cwricwlwm i Gymru

- 5.1. Gadawodd RT y Bwrdd ar gyfer yr eitem hon.
- 5.2. Cyflwynodd Kate Crabtree (KC) y papur mewn perthynas â'r opsiynau ar gyfer caffael cymwysterau TGAU / arholiadau newydd mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Diben y papur oedd esbonio'r sefyllfa gyfredol, disgrifio'r opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol ac ysgogi trafodaeth ar yr opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod corff/cyrff dyfarnu yn datblygu a darparu cymhwyster cyffredinol i ddiwallu anghenion y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- 5.3. Trafododd y Bwrdd y papur ac ar ôl trafodaeth helaeth, a oedd yn trafod meysydd megis risg, nododd y Bwrdd y cyfarwyddyd canlynol i'r Prif Swyddog Gweithredol - sef mai ystyried y risg (i'r system gymwysterau yng Nghymru) sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o gamau gweithredu oedd y ffactor pwysicaf o ran pennu'r ffordd ymlaen a hefyd bod yr ymrwymiad i gefnogi gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn hanfodol. Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal trafodaeth bellach yn ystod cyfarfod nesaf y pwyllgor Rheoleiddio cyn dod yn ôl i'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i) Trafododd y Bwrdd yr opsiynau a amlinellwyd yn y papur a rhoddwyd cyfarwyddyd strategol, sef mai risg oedd yr ystyriaeth bwysicaf mewn unrhyw benderfyniad.

6. Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol a'r Adroddiad Ariannol hyd at fis Chwefror 2018 gan gynnwys rhagolwg diwedd y flwyddyn

Ymunodd Kerry Price (KP) a Joanne Nicholas (JN) â'r cyfarfod.

Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol

- 6.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad gan grynhai hynt y blaenoriaethau gweithredol tan ddiwedd mis Chwefror 2018 Nododd HB ei fod ar y trywydd iawn ar y cyfan. Cafodd cynnydd ar y brif lefel ym mhob un o'r pum Blaenoriaeth Weithredol ei raddio'n wyrdd.

6.2. Cafwyd rhai newidiadau i'r cynllun gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli, a chafodd y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd fel meysydd na chânt eu cwblhau yn ystod 2017/18, ond y byddent yn cael eu cynnwys yn 2018/19.

- Cwblhau'r adroddiad ar ymchwil i ffioedd a gwasanaethau cymwysterau cyffredinol;
- Cyhoeddi'r adroddiad ar ymchwil ar Fagloriaeth Cymru (adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau);
- Cwblhau'r adroddiad ar ymchwil i Hyder y Cyhoedd
- Cwblhau Strategaeth y Gweithlu.

6.3. Trafododd y Bwrdd y newidiadau gan nodi iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd fel newidiadau posibl yn ystod cyfarfodydd cynharach.

6.4. Roedd y Bwrdd yn fodlon ar hynt y blaenoriaethau sefydliadol a nododd y newidiadau ym mharagraff 6.2.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Adolygodd a nododd y Bwrdd yr adroddiad ar gynnydd hyd at ddiwedd mis Chwefror 2018, gan gadarnhau ei fod yn fodlon ar y newidiadau y cytunwyd arnynt i'r is-flaenoriaethau.

Adroddiad Cyllid

6.5. Cyflwynodd KP y papur, a roddodd y rhagolwg alldro diweddaraf yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol ddiweddaraf tan ddiwedd mis Chwefror 2018. Nododd i'r sefyllfa bresennol heddiw, dair wythnos ar ôl dyddiad yr adroddiad, newid ac y byddai'n parhau i newid ychydig tan ddiwedd y flwyddyn.

6.6. Yn yr adroddiad diwethaf ym mis Ionawr, roedd y sefydliad yn darogan gwariant o £7.6m, a oedd yn cynnwys darpariaethau oedd yn creu cyfanswm o tua £400k ar gyfer eitemau 'llai sicr' (amrywiad o 5% yn erbyn y gyllideb). Roedd eitemau llai sicr yn cynnwys meysydd fel grantiau, ymchwil a chostau cyfreithiol lle na fyddai modd cyflawni gwariant tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd natur y gwaith dan sylw. Cafodd Llywodraeth Cymru wybod ddechrau mis Rhagfyr fod yr amrywiad yn debygol o fod rhwng £350k a £400k, gyda'r cafeat fod y rhagolwg yn cynnwys rhai darpariaethau ar gyfer eitemau 'llai sicr'. Nododd KP ei bod yn anochel y byddai'r rhagolwg alldro yn newid am na fyddai rhai o'r gwariannau llai sicr hyn yn cael eu gwireddu.

6.7. Nodwyd mai'r alldro presennol a ragamcanwyd oedd £7.45m, a fyddai'n arwain at danwariant o £590k (amrywiad o 7% yn erbyn y gyllideb). Amlinellodd y papur y meysydd o amrywiad yn erbyn prif feysydd y gyllideb i'r Bwrdd.

6.8. Trafododd y Bwrdd y sefyllfa o ran alldro, y rhesymau dros y newid a'r risgiau cysylltiedig. Nododd y Bwrdd, er bod rhagolwg 2017-18 yn cyflwyno tanwariant, na ddisgwylir gweld yr un peth yn 2018-19. Nodwyd yr un peth yng nghyfarfod mis

Ionawr lle cafwyd trafodaeth bellach ar brosesau rheoli'r gyllideb a'r gwaith o reoli tanwariannau posibl.

- 6.9. Diolchodd y Bwrdd i KP am yr eglurder a roddwyd yn yr adroddiad a chadarnhaodd ei fod yn nodi'r rhagolwg alldro a'r trefniadau oedd ar waith i reoli'r risgiau parhaus.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Nododd y Bwrdd y rhagolwg alldro a'r trefniadau oedd ar waith i reoli'r risgiau parhaus mewn perthynas â thanwariant.

7. Cynllun Busnes 2018/19, Cyllideb a Staffio

- 7.1. Cyflwynodd Alison Standfast (AS) y papur a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer Cynllun Busnes 2018/19, gan gynnwys y blaenoriaethau gweithredol, dyrannu cyllidebau a chynyddu nifer y swyddi cymeradwy.
- 7.2. Rhoddodd HP drosolwg i'r Bwrdd o'r blaenoriaethau gweithredol arfaethedig, rhoddodd KP drosolwg o ddyraniad arfaethedig y gyllideb a rhoddodd AS drosolwg o'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt i swyddi cymeradwy, gyda phob un ohonynt wedi'u cynnwys ym mhapur y Bwrdd.
- 7.3. Trafododd y Bwrdd y cynigion a chadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau y gwnaed gwaith craffu manwl ar y cynigion yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2018. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod capasiti'r sefydliad yn gallu ymdopi â lefel y gweithgarwch. Roedd y Bwrdd hefyd yn awyddus i sicrhau bod gan y gyllideb ddarpariaeth ar gyfer y gwaith sydd ei angen er mwyn cefnogi'r datblygiadau sydd eu hangen ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- 7.4. Cadarnhaodd HB a PB unwaith eto y caiff y cynllun ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau arno i'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd. Cadarnhaodd KP a PB, er nad oedd y gyllideb gyfredol yn dyrannu adnoddau sylweddol i'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan fod angen ystyriaeth bellach er mwyn cadarnhau'r ffordd ymlaen, cafwyd cadarnhad ar lafar gan Lywodraeth Cymru y caiff adnoddau ychwanegol eu dyrannu os bydd angen - byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y llythyr dyraniad grant.
- 7.5. Trafododd y Bwrdd y cynigion, ystyriodd y drafodaeth ac roedd yn hapus i gymeradwyo'r argymhellion.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:
- a. Blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2018/19;

- b. Y gyllideb ar gyfer 2018/19;
 - c. Cynnydd o dri i'r swyddi cymeradwy (x2 Rheolwr Cymwysterau, 1x Swyddog Cymwysterau), o 80 i 83;
 - d. Dirprwyo fersiwn derfynol o'r Cynllun Busnes (2017/18) i'r Prif Swyddog Gweithredol.
- ii. Nododd y Bwrdd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2018-19 i 2020-21.

8. Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 8.1. Cyflwynodd AS bapur a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer amcanion Llesiant sydd wedi'u cynnig i'w haddasu ac yna'u cyhoeddi.
- 8.2. Amlinellodd AS fod Deddf Cymwysterau Cymru 2015 wedi cael ei phasio yn fuan ar ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf). O ganlyniad i hynny, yn wahanol i gyrff a noddur, ni chafodd Cymwysterau Cymru ei restru yn y Ddeddf.
- 8.3. O ystyried yr effaith y mae cymwysterau yn eu cael ar gyfleoedd bywyd yn y dyfodol, a'r cysylltiadau rhwng cyflogaeth, ffyniant economaidd a llesiant, cytunodd y Bwrdd Rheoli i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf yn wirfoddol.
- 8.4. Cyflwynodd AS yr amcanion arfaethedig, a drafodwyd gan y Bwrdd, ac ar ôl rhai mân ddiwygiadau, cymeradwyodd y bwrdd yr amcanion a'r cynnig cyhoeddi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd yr amcanion Llesiant a chytunodd y dylid cyhoeddi'r rhain ar wefan Cymwysterau Cymru.

9. Cofnodion y Bwrdd Caeedig (24 Ionawr 2018)

- 9.1. Nid oedd y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.
- 9.2. Cyflwynodd y Cadeirydd y cofnodion a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn y camau a gofnodwyd.
- 9.3. Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Caeedig a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Gan mai cyfarfod caeedig oedd hwn, ni fyddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
- iv. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

10. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

- 10.1. Ymunodd Helen Murray (HM) â'r cyfarfod. Rhoddodd HB drosolwg o'r gwaith a wnaed er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym ar 25 Mai 2018. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod ei gyfarfod ym mis Chwefror a chynhaliwyd archwiliad at wraidd risgiau yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risgiau yn gynharach yn 2017.
- 10.2. Roedd y papur yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am natur a defnydd data personol yn y sefydliad, polisiâu a gweithdrefnau, proseswyr, hysbysiadau preifatrwydd, y prosiect casglu data, hyfforddiant staff a sicrwydd allanol.
- 10.3. Cadarnhaodd HB fod archwiliad allanol wedi cael ei gynnal ar ddechrau mis Mawrth a chafwyd adroddiad drafft. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau'r cynnydd da a wnaed o ran cydymffurfiaeth a nodwyd tri cham risg uchel yn ogystal â gweddill y rhaglen waith a bennwyd. Rhoddwyd tawelwch meddwl i'r Bwrdd yn sgil canfyddiadau'r archwiliad.
- 10.4. Nododd y Bwrdd mai Helen Murray oedd Swyddog Diogelu Data y sefydliad.
- 10.5. Holodd y Bwrdd ynghylch agweddau ar yr adroddiad er mwyn cael eglurder a sicrwydd perthnasol cyn diolch i HM am ei gwaith.
- 10.6. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y cafwyd y diweddaraf ynghylch y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn y cyfarfod diwethaf a byddai adroddiad archwilio allanol y Pwyllgor yn cael ei ystyried ym mis Mai.
- 10.7. Nododd y Bwrdd y caiff hyfforddiant ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ei gynnwys yn y rhaglen ar gyfer diwrnod datblygu'r Bwrdd ar 17 Mai 2018.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith paratoi er mwyn sicrhau bod e sefydliad yn barod i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol erbyn 25 Mai 2018.

11.

11 Rhagolwg o faes TG

- 11.1. Esboniodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn i David Jones (DJ) roi trosolwg o'i farn ar ddyfodol maes TG a rhai o'r materion y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd eu cadw mewn cof wrth ystyried gwaith Cymwysterau Cymru dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf.
- 11.2. Rhoddodd DJ gyflwyniad amrywiol llawn gwybodaeth i'r Bwrdd, a chroesawodd y Bwrdd DJ a diolch iddo am baratoi'r cyflwyniad. Roedd yn tynnu sylw penodol at ba mor gyflym mae pethau'n newid ym maes TG a pha mor anodd y gall fod i ragweld newid.

Cam Gweithredu: HB i ddsbarthu'r sleidiau a ddefnyddiwyd yn y sesiwn i bawb a oedd yn bresennol.

12 Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd

- 12.1 Cyflwynodd HB y papur a oedd yn cadarnhau bod pob Pwyllgor wedi cynnal archwiliad iechyd llywodraethu a oedd yn cynnwys adolygu eu cylch gorchwyl. Cynigiwyd mân newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Rheoleiddio a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.
- 12.2 Rhoddodd y papur drosolwg o'r newidiadau arfaethedig a oedd yn gyffredin rhwng y pwyllgorau a lle argymhellir newidiadau penodol.
- 12.3 Trafododd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig a chytunodd y dylid adolygu'r agweddau canlynol:
- 12.3.1 Pa mor briodol ydyw i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod yn aelod o bwyllgorau eraill hefyd;
- 12.3.2 Pa mor gyson yw'r iaith a ddefnyddir ym mhob dogfen er mwyn esbonio materion 'y tu allan i'r pwyllgor' a sut mae busnes 'y tu allan i'r pwyllgor' yn gweithio;
- 12.3.3 A oes rhaid i Gadeirydd y pwyllgor ffurfio rhan o'r cworwm, gydag awgrym efallai na fyddai angen gwneud hyn;
- 12.3.4 Sicrhau mwy o eglurder i bob dogfen o ran sut y byddai Cadeirydd cyfarfod yn cael ei benodi os bydd Cadeirydd sefydlog yn absennol (gan dybio y caiff pwynt 12.3.3. ei ddiwygio)

Cam Gweithredu: HB ac AE i adolygu'r pwyntiau uchod a chadarnhau cylch gorchwyl y tri phwyllgor.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Pwyllgor Rheoleiddio a'r Pwyllgor Adnoddau, gan nodi nad oedd angen diweddarau cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar hyn o bryd.

13 Edrych Ymlaen – llywio'r agenda

- 13.1 Arweiniodd y Cadeirydd drafodaeth i ystyried y tri maes canlynol: sut y gallai'r Bwrdd gyfrannu at y gwaith o ddatblygu eitemau ar gyfer yr agendau; sganio gorwelion o safbwynt aelodau'r Bwrdd ac unrhyw faterion sylweddol roedd y Bwrdd yn teimlo y dylid eu trafod. Roedd hefyd yn cynnwys trafodaeth ar sut y dylai'r Bwrdd flaenoriaethu'r materion hyn.

13.2 Er bod rhai agweddau ar newid, megis effaith y cwricwlwm newydd ac effaith y newidiadau yn Lloegr ar gymwysterau galwedigaethol, eisoes ar yr agenda – ychwanegodd y Bwrdd y syniadau canlynol, a oedd yn gymysgedd o geisiadau am ragor o wybodaeth a meysydd i'w trafod:

- 13.2.1 datblygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
- 13.2.2 ein dull rheoleiddio;
- 13.2.3 cyfyngu ar y cwricwlwm o bosibl;
- 13.2.4 y tensiwn rhwng y cwricwlwm newydd a meysydd pwnc;
- 13.2.5 prentisiaethau a phrentisiaethau ifanc.

13.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am eu hymgysylltiad.

14 Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

14.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 15 Chwefror. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 14 Rhagfyr 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

14.2 Roedd y prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror yn ymwneud â'r gyfres arholiadau, archwiliadau cyrff dyfarnu, datganiadau o gydymffurfiaeth cyrff dyfarnu, ymgynghoriad ar y polisiau gorfodi ac ymateb Cymwysterau Cymru i ymgynghoriad Lefel T.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio.

15 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

15.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 14 Chwefror. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 12 Hydref 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

15.2 Roedd y prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror yn ymwneud ag adroddiadau archwilio mewnol (cyflogres, recriwtio, newid rheolaeth TG), yr adroddiad rheoli prosiect, y cynllun archwilio allanol ar gyfer 2017/18, fframwaith sicrwydd llywodraethu, rheoli ariannol ac adroddiadau risg. Roedd hefyd adroddiadau yn seiliedig ar gydymffurfiaeth yn ymwneud, er enghraifft, â rhoddion a lletygarwch, gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo, yn ogystal ag adroddiadau sefydlog ar wybodaeth a gwyradau caffael.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

16 Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

- 16.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 27 Chwefror. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 18 Hydref 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 16.2 Roedd y prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Chwefror yn ymwneud â'r cynllun gweithredol a'r adroddiad ariannol tua diwedd mis Ionawr 2017 a'r cynllun busnes arfaethedig, amcanion a gofynion adnoddau dynol ar gyfer 2018/19. Cymeradwywyd pedwar polisi Adnoddau Dynol mewn perthynas â seibiant gyrfa, absenoldeb arbennig, tanberfformiad a rheoli perfformiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau.

17 Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

- 17.1 Roedd un eitem i'w nodi. Yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo'r gwaith o gymeradwyo ymateb y sefydliad i'r ymgynghoriad Lefel T y mae'r Adran Addysg (Lloegr) yn ei gynnal, i grŵp llai o aelodau'r Bwrdd. Cadarnhaodd HB fod yr ymateb wedi'i gyflwyno a bod copi o'r ymateb wedi'i gynnwys gyda phapurau'r Bwrdd er gwybodaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd ymateb y sefydliad i'r ymgynghoriad Lefel T.

18 Calendr y Bwrdd

- 18.1 Cadarnhaodd HB y calendr cyfarfodydd sydd ar waith hyd at fis Gorffennaf 2019 a nodwyd ar yr agenda. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 16 Mai 2018.

19 Unrhyw Fater Arall

- 19.1 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall a chodwyd yr eitemau canlynol:

19.2 Holodd aelod o'r Bwrdd ynghylch pa mor briodol ydyw bod aelodau o'r Bwrdd yn aelodau o'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil. O safbwynt llywodraethu, efallai nad yw bod yn rhan o grŵp a all wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredol neu'r Bwrdd, yn rôl briodol i aelodau'r Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'r pwynt a wnaed yng nghydestun y cylch gorchwyl.

Cam gweithredu Cadeirydd a HB i adolygu rôl aelodau'r Bwrdd sydd yn y Grŵp Cyngori ar Ymchwil

- 19.3 Roedd Isabel Nisbet (a oedd wedi gadael y cyfarfod) wedi gofyn i'r Cadeirydd roi gwybod i'r Bwrdd ei bod yn disgwyl cyfarfod â Roderic Gillespie (Prif Swyddog Gweithredol newydd CBAC) yn anffurfiol yn ystod yr wythnosau nesaf. Holodd aelod o'r Bwrdd ynghylch a oedd hyn yn briodol. Cytunodd y Cadeirydd i drafod y pryderon â'r aelod y tu allan i'r cyfarfod.
- 19.4 Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod diwethaf Alun Llwyd a diolchodd iddo am ei wasanaeth a'i ymroddiad i Cymwysterau Cymru ers iddo gael ei benodi. Ategodd y Bwrdd eiriau'r Cadeirydd a dymuno'n dda i Alun yn y dyfodol.
- 19.5 Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Alison Rees cyn iddi symud i rôl newydd yn Llywodraeth Cymru. Diolchodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol i Alison am ei chymorth a'i chyfraniad i'r sefydliad, gan ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd. Ategodd y Bwrdd eu dymuniadau gorau hefyd.
- 19.6 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.50.

Diwedd